OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1659 (Cy.171)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *30 Mehefin 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Gorffennaf 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a pharagraff 2A o Atodlen 12 iddi(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2004.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio Rheoliadau 1997

**2.** Yn rheoliad 1(2) o Reoliadau 1997 (enwi, cychwyn a dehongli) yn y diffiniad o "NHS sight test fee"—

(a) yn lle "£46.16" rhodder "£49.19"; a

(b) yn lle "£16.72" rhodder "£17.82".

(**1**) 1977 p.49 ("Deddf 1977"); *gweler* adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i), i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations". Diwygiwyd adran 126(4) o Ddeddf 1977 gan Ddeddf 1990, Atodlen 4, paragraff 37(5).
Mewnosodwyd paragraff 2A o Atodlen 12 gan Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48), Atodlen 1, paragraff 3 a'i diwygio gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.48).
Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 126(4) o Ddeddf 1977 a pharagraff 2A o Atodlen 12 iddi, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'u diwygiwyd gan adran 66(5) o Ddeddf Iechyd 1999.

(**2**) O.S.1997/818; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S.1997/2488, 1998/499, 1999/609, 2000/978 (Cy.48), 2000/3119 (Cy.198), 2001/1362 (Cy.90) a 1423 (Cy.98), 2002/186 (Cy.25) a 1506 (Cy.151) a 2003/301 (Cy.43) a 955 (Cy.129).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D . Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

30 Mehefin 2004

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997, sy'n darparu cynllun ar gyfer taliadau i'w gwneud gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol, drwy system dalebau, tuag at y costau a dynnwyd gan gategorïau penodol o bobl mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "NHS sight test fee" i gynyddu gwerthoedd y ddwy lefel o ffioedd am brofion golwg y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n daladwy i ymarferwyr meddygol offthalmig ac optegwyr. Mae'r symiau hyn yn berthnasol wrth benderfynu pwy sy'n gymwys i gael taleb at dalu costau prawf golwg, a phenderfynu ei gwerth adbrynu.